24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

Drwy e-bost

**Cyfeirnod:** LF21006/AC288/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 25 Tachwedd 2021

Annwyl Peredur

## Adolygiad Teithio a Chynhaliaeth

Diolch i chi am eich llythyr 24 Tachwedd 2021; yn unol â'r gofyn, rydym yn nodi isod costau ac arbedion manwl ein cynigion yn ôl blwyddyn ariannol.

Rydym wedi dangos y rhain mewn dwy ran. Mae'r cyntaf yn dangos yr arbedion parhaus sy'n deillio o ddileu'r Lwfans Teithio o 2024-25. Mae'r ail yn dangos y goblygiadau yn y cyfnod pontio hyd at fis Ebrill 2024 os caiff Amcangyfrif Atodol ei gymeradwyo a gallwn gynnig pryniant ymlaen llaw.

Ni fydd manteisio ar y pryniant yn effeithio ar arbedion parhaus gan na fydd unrhyw lwfans teithio yn cael ei dalu o fis Ebrill 2024 ymlaen o dan y cynigion hyn.

## Costau ac arbedion ar ôl Ebrill 2024

Rydym wedi ymrwymo i gyfnod pontio o ddwy flynedd cyn dileu'r Lwfans Teithio i gydnabod trefniadau ariannol personol y gallai staff fod wedi'u gwneud. Bydd staff yn parhau i dderbyn y Lwfans, felly, tan 2024-25. Mae'r tabl canlynol yn cymharu costau'r cynllun presennol â chostau amcangyfrifedig y cynigion ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben ym mis Ebrill 2024, gan ddangos sut y bydd ymrwymiad y Bwrdd i arbedion blynyddol o £200,000 (£1miliwn dros 5 mlynedd) yn cael ei gyflawni.

Bydd yr arbedion yn amrywio yn ôl union faint o deithio a wneir yn y dyfodol. Am y rheswm hwn, rydym wedi dangos amrywiaeth o filltiroedd yn seiliedig ar ein gwir deithio yn 2018-19[1] – y flwyddyn gyflawn ddiwethaf cyn y pandemig . Wrth inni

[1] 731,000 milltir

barhau i weithio o bell, rydym yn defnyddio'r arbedion ychwanegol o lai o deithio i ariannu lwfans gwaith cartref.

| | Milltiroedd | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 100% | 75% | 50% | 25% |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cost Gyfredol | | | | |
| Lwfans teithio gan gynnwys argostau | 835 | 835 | 835 | 835 |
| Milltiroedd @25c y filltir | 183 | 137 | 91 | 46 |
| Cyfanswm | 1,018 | 972 | 926 | 881 |
| Cynnig | | | | |
| Cynnydd o £750 mewn cyflogau gan gynnwys argostau | 300 | 300 | 300 | 300 |
| Milltiroedd ar 45c | 329 | 247 | 164 | 82 |
| Meincnodi cyflogau hyfforddeion[2] | 170 | 170 | 170 | 170 |
| Cyfanswm | 799 | 717 | 634 | 552 |
| Arbediad net | 219 | 255 | 292 | 329 |

Caiff yr arbedion hyn eu hadlewyrchu yn ein Cynllun Amcangyfrif a Ffioedd yn 2024-25 ac fe'u hadlewyrchir mewn cyllideb is yn y blynyddoedd wedi hynny. Bydd yr arbedion gwirioneddol a gyflawnir yn cael eu monitro gan ein Bwrdd drwy gydol y flwyddyn ac yn cael eu hadrodd yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn.

## Costau ac arbedion pontio

Mae'r tabl canlynol yn dangos sut mae costau ein cynllun presennol yn parhau drwy'r cyfnod pontio o ddwy flynedd y cytunwyd arno o gymharu â'r cynnig o daliad ymlaen llaw a dileu'r lwfans ar unwaith. Sylwer bod y niferoedd yn y tabl yn tybio manteisio ar y taliad ymlaen llaw yn gyfan gwbl. Mae'n annhebygol iawn y bydd hyn yn digwydd ac felly bydd y costau a'r arbedion sy'n deillio o hynny yn llai na'r rhain a ddangosir yn ystod y cyfnod pontio.

---

[2] Rydym wedi cytuno ar raddfeydd cyflog newydd Hyfforddeion a Phrentisiaethau i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gymaradwy â Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus ar ôl cael gwared ar y Gynhaliaeth Deithio.

| | 2021-22 £'000 | 2022-23 £'000 | 2023-24 £'000 | Cyfanswm 3 blynedd £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cost Gyfredol | | | | |
| Lwfans teithio gan gynnwys argostau | | 835 | 835 | 1,670 |
| Milltiroedd[3] @25c y filltir | | 91 | 91 | 182 |
| Cyfanswm | | 926 | 926 | 1,852 |
| Cynnig | | | | |
| Taliad ymlaen llaw | 1,480 | | | |
| Milltiroedd ar 45c | | 164 | 164 | 328 |
| Cyfanswm | | 164 | 164 | 328 |
| Cost net / arbedion | 1,480 | (762) | (762) | (44) |

## Gofyniad arian parod 2021-22 a 2022-23

Bydd yr Amcangyfrif Atodol arfaethedig ar gyfer 2021-22 er cyflenwi adnoddau yn unig er mwyn ein galluogi i wneud y ddarpariaeth gyfrifyddu angenrheidiol ar gyfer y taliad ymlaen llaw yn ein cyfrifon.

Fel y gŵyr y Pwyllgor, rydym wedi cynnwys gofyniad arian parod ychwanegol yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2022-23 i ganiatáu i daliadau gael eu gwneud i staff ym mis Ebrill 2022. Mae hyn yn llai na gwerth llawn y taliad ymlaen llaw gan fod yr Amcangyfrif eisoes yn cynnwys darpariaeth ar gyfer lwfans teithio un flwyddyn i'r holl staff.

## Newidiadau i'n Hamcangyfrif 2022-23 a 2023-24

Yn amodol ar gymeradwyo'r Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2021-22 ac i ba raddau y mae staff yn dewis y taliad ymlaen llaw, mae gennym dri opsiwn i adlewyrchu hyn ar gyfer 2022-23:

- Gallem ddychwelyd y cyllid i Gronfa Gyfunol Cymru fel tanwariant yn ein cyfrifon ar gyfer 2022-23 (arian parod heb ei defnyddio ac arbedion adnoddau).
- Gallem osod Amcangyfrif Atodol i ddychwelyd yr arbediad llawn i Gronfa Gyfunol Cymru yn ystod y flwyddyn; neu

[3] Ar 50 y cant o filltiroedd 2018-19

- Gallem osod Amcangyfrif Atodol a Chynllun Ffioedd diwygiedig i rannu'r arbedion rhwng Cronfa Gyfunol Cymru a ffioedd.

Byddwn yn ysgrifennu at y Pwyllgor yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gost a'r arbedion gwirioneddol i drafod pa rai o'r opsiynau hyn sy'n well.

Ar gyfer 2023-24 byddwn yn gallu adlewyrchu'r gyllideb is newydd ar gyfer lwfans teithio yn ein Hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn honno.

Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes eglurhad ychwanegol y gallwn ei ddarparu.

Yn gywir



**LINDSAY FOYSTER**
**Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru**



**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**